

**CYNGOR TREF RHUTHUN**  
**RUTHIN TOWN COUNCIL**



---

Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**  
a gynhaliwyd mewn modd hybrid nos Lun 28 o Dachwedd 2022 am 7:00pm  
yn Yr Hen Lys ac arlein drwy Zoom.

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Menna Jones (Maer),  
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Mike van der Eijk,  
Christine Ellis, Gavin Harris, Dafydd Hughes, Ian Lewney, Jabez Redfern  
Oakes, Lisa Thomas, Anne Roberts, Rachel Ryland, a Heather Williams  
Hefyd Cynghorwyr Sir Lleol: Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac  
Emrys Wynne.

**YN BRESENNOL:** Siân Clark – Clerc y Dref  
Kate Harcus – Dirprwy Glerc Rhuthin  
Sandra Williams - Cyfieithydd

(*NODER:* Oherwydd anawsterau technegol, amharwyd ar ddarllediad y cyfarfod a'r rhyngweithio â'r mynychwyr gan Zoom gyda'r cysylltiad a gollwyd gan eitem 12 (cofnod 137).

**CROESO**

Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb a fynychodd y cyfarfod yn dilyn penwythnos prysur yn Rhuthun gyda dadorchuddio Groto Siôn Corn yn Yr Hen Lys, a'r Farchnad Crefftwyr Nadolig. Hefyd bu gwasanaeth olaf y Parch Ganon Stuart Evans yn Eglwys San Pedr cyn ei ymdeoliad ar ôl 12 mlynedd o weinidogaeth yn Rhuthun, gan gynnwys derbyniad i ddiolch iddo am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i Rhuthun a'i thrigolion.

**126. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peter Daniels.

**127. DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd y Cyng Menna Jones ddiddordeb yn yr eitemau a ganlyn:

*'eitem 19 Cais am Rhodd gan Yr Urdd'* (cofnod 143) gan ei bod yn Aelod o Bwyllgor Cangen Sir Ddinbych o'r Urdd; a

*'eitem 20 Rhyddhau Ail Randaliad Lwfans y Maer'* (cofnod 144) fel diddordeb ariannol penodol.

Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiddordeb yn *'eitem 11 – Cofnodion Pwyllgor yr Hen Lys'* (cofnod 135) fel perchennog busnes lletygarwch.

Datganodd y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes ddiddordeb yn *'eitem 11 – Cofnodion Pwyllgor yr Hen Lys'* (cofnod 135) fel Cyfarwyddwr busnes lletygarwch.

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Hughes ddiddordeb yn *'eitem 16 – Grŵp Partneriaeth Llifogydd Rhuthun'* (cofnod 141) fel aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

**128. CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH**

Diolchodd Tom Barham, Prif Swyddog CGGSDd i'r Cyngor Tref am y gwahoddiad ac yn ystod ei gyflwyniad amlygodd y pwyntiau canlynol:

- Bod CGGSDd yn awyddus i ymgysylltu a gweithio gyda Chynghorau Dinas, Tref a

Chymuned i ystyried a datblygu ymhellach yr hyn y gallai'r ddau sector ei wneud gyda'i gilydd.

- Maint y trydydd sector yn Sir Ddinbych: 2450 o grwpiau/mentrau gweithredol; 4,700,000 o oriau gwirfoddoli bob blwyddyn; 10% o swyddi yn y sir; y sir a'r trydydd nifer uchaf o wirfoddolwyr yng Nghymru.
- CGGSDd oedd yn darparu yr unig gymorth a chyngor annibynnol trydydd sector yn y sir
- Wedi ennill gwerth £250k o grantiau yn ystod 2021/22 a chefnogi strategaethau ariannu
- Porth ar-lein 'Gwirfoddolwr Cymru' a gefnogir gan y 19 CGG eraill yng Nghymru
- Cyfeillion digidol – cefnogwyd 18 o gwmnïau budd cymunedol e.e. band eang cymunedol
- Roedd prosiectau arbennig yn cynnwys: iechyd a lles; Sir Ddinbych sy'n ymwybodol o ddementia; Prosiect Neuadd y Farchnad (i fod yn ofod hyblyg ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyfleoedd cymdeithasol).

Diolchodd yr aelodau i Mr Barham am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a chanmolwyd gwaith CGGSDd. Byddai'r pwyntiau canlynol, a godwyd yn y drafodaeth, yn cael eu hystyried a'u gweithredu gan CGGSDd:

- gweithio i ystyried cyfleoedd i ddatblygu a chydlynu gwirfoddolwyr yn fwy lleol yn Rhuthun
- Adleoli'r hysbysfwrdd o ddiddordebau lleol yn Neuadd y Farchnad i leoliad lefel llygad
- Bod plac Tŷ Scott yn cael ei adfer i Neuadd y Farchnad a'i arddangos yn briodol
- Parhau i adolygu hygyrchedd ac atyniad mynediad Neuadd y Farchnad (gan gydnabod bod rhai addasiadau i'r fynedfa hyd yma).
- Nodwyd y byddai gwaith i ddatblygu'r defnydd o wybodaeth i gynghori a phennu camau gweithredu a blaenoriaethau sy'n cael effaith (gan gynnwys llywio datblygiad polisi ac ymgyrchoedd) yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn.

### **129. ADRODDIAD Y MAER**

Roedd adroddiad y Maer wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw. Yn ogystal, dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu cyfarfod o Ras Grempeg Rhuthun.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

### **130. ADRODDIADAU'R AELODAU**

Roedd Adroddiadau yr Aelodau wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw a diolchwyd iddynt am eu gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Anogwyd pawb i hyrwyddo argaeledd y gwasanaeth fflecsibws.

**PENDERFYNWYD:** *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

### **131. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR LLEOL**

Roedd anawsterau technegol yn atal derbyn adroddiad llafar gan Gynghorwyr Sir Rhuthun.

**PENDERFYNWYD:** *nodi unrhyw faterion drwy ebost.*

### **132. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau cofnodion y cyfarfod arferol a gynhaliwyd ar 24 o Hydref 2022 fel cofnod cywir.*

### **133. MATERION YN CODI**

*Cofnod 118: Adolygiad Seneddol 2023 – Cynigion Diwygiedig:* Hysbyswyd yr Aelodau y bu cyswllt â Chyngor Cymuned Efenechtyd, gan ei bod o fen ffin etholaeth arfaethedig Bangor

Aberconwy. Safbwynt y Cyngor Cymuned oedd i'w cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd a nodwyd hyn yn ymateb Cyngor Tref Rhuthun i'r CGomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

*Cofnod 119: Sul y Cofio: diolchodd y Maer i bawb a oedd yn bresennol.*

#### **134. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022.*

#### **135. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Bu i'r Aelodau ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022.*

#### **136. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI YR HEN LYS**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2022. Fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Rheoli'r Hen Lys, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig i'r Cyngor Tref wneud cais am drwydded alcohol ar gyfer Yr Hen Lys er mwyn sicrhau'r un ddarpariaeth a llogwyr lleoliadau cymunedol eraill. Gofynnodd yr aelodau am i adroddiad ar gais arfaethedig am drwydded alcohol ar gyfer Yr Hen Lys gael ei gyflwyno a'i ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD:** *bod adroddiad ar gais arfaethedig am drwydded alcohol ar gyfer Yr Hen Lys yn cael ei gyflwyno a'i ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr 2022.*

#### **137. RHAGLEN WAITH 20MYA LLYWODRAETH CYMRU**

Roedd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru at Gynghorwyr Sir ar y rhaglen 20mya wedi'i dosbarthu i Gynghorwyr Tref ymlaen llaw. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno y byddai'r terfyn cyflymder cenedlaethol rhagosodedig ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr yn cael ei ostwng o 30mya i 20mya a'i gyflwyno o fis Medi 2023 oni bai bod achos da mewn sefyllfa benodol i gadw'r 30mya. Cyngor Sir Ddinbych, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, oedd yn gyfrifol am osod terfynau cyflymder a byddai'n nodi 'eithriadau' i'r terfyn cyflymder rhagosodedig 20mya. Nododd yr Aelodau y byddai dull wedi'i deilwra i weddu orau i unrhyw sefyllfa benodol ac er ei fod yn gefnogol mewn egwyddor i'r fenter 20mya, gofynnodd i'r Cyngor Sir ymgynghori â'r Cyngor Tref a'r gymuned leol i gyfrannu at 'eithriadau' arfaethedig neu awgrymedig yn Rhuthun.

**PENDERFYNWYD:** *bod y Cyngor Tref yn cefnogi'r fenter 20mya mewn egwyddor, gyda'r cafeat bod y Cyngor Tref a'r gymuned leol yn cael y cyfle i gyfrannu at 'eithriadau' arfaethedig neu awgrymedig yn Rhuthun.*

#### **138. DIWEDDARIAD A CHYNNIG AR BROSIECT COFEB RHYFEL RHUTHUN**

Ar ran y Gweithgor Cofebion Rhyfel, rhoddodd Rob Price y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect y gofeb rhyfel. Er bod briff i hysbysu cynnig i'r Cyngor Tref warantu rhywfaint o arian wedi'i ysgrifennu, roedd gohebiaeth ddiweddar gan Cadw wedi golygu bod cynnig o'r fath yn rhy gynamserol ar hyn o bryd. Yn dilyn comisiynu swyddog cadwraeth proffesiynol i lunio cynlluniau a datblygu rhestr o waith, derbyniwyd dyfynbrisiau gan gontractwyr a chadwyd contractwr â chymwysterau addas tra'n aros am gadarnhad o gyllid. Cyfanswm cost y prosiect oedd £38,000 ac roedd cyllid grant gan wahanol sefydliadau yn cael ei gyrchu. Roedd cais wedi'i wneud i Grant Adeiladau Hanesyddol Cadw erbyn ei ddyddiad cau, sef 31 Awst 2022, a chafwyd ymateb ddiwedd mis Hydref y byddai Cadw yn darparu cyllid grant o £25,000 yn

amodol ar rai elfennau, a oedd yn cynnwys cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Chwefror 2023. O ystyried bod gwaith ar y Gofeb Ryfel yn cynnwys defnyddio mortar calch, rhoddwyd cyngor na fyddai'n bosibl gwneud y gwaith dros gyfnod y gaeaf. O ganlyniad anfonodd Clerc y Dref ymateb i Cadw yn amlinellu'r sefyllfa, gan bwysleisio'r angen i gynnal cywirdeb unrhyw waith, ac yn awgrymu opsiynau i oresgyn y cyfyngiadau ariannu. Mewn ymateb, roedd Cadw wedi datgan ei barodrydd i ariannu'r prosiect yn amodol ar argaeledd cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd safbwynt o'r fath yn neges mor gadarnhaol ag y gallai Cadw ei rhoi ar hyn o bryd. Roedd ceisiadau cyllid eraill yn cynnwys: War Memorials Trust; Loteri Treftadaeth a Fferm Wynt Clocaenog. Byddai adroddiad pellach yn amlinellu'r cynnydd ar y cyllid grant ac ystyriaethau ariannol cysylltiedig yn cael ei ddarparu yn y gwanwyn, unwaith y byddai safbwynt cadarn wedi'i dderbyn gan Cadw. Ochr yn ochr â'r ceisiadau am arian, roedd rhai tasgau eraill megis cadarnhau perchnogaeth tir a chaniatâd i ddefnyddio tir Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer rhan o'r gwaith, yn cael eu symud ymlaen.

Diolchodd yr aelodau i'r Gweithgor Cofebion Rhyfel a Rob Price yn benodol am y gwaith diwyd a wnaed ar y prosiect hyd yma.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r adroddiad diweddar gan gynnwys adroddiad cynnydd a gyflwynwyd i'r Cyngor Tref yng Ngwanwyn 2023 ar arian grant ac ystyriaethau ariannol cysylltiedig.*

### **139. CWNINGAR Y CASTELL**

Dywedodd y Cyngorwr Sir Emrys Wynne wrth yr Aelodau fod arolwg topograffig wedi'i gynnal ar wal Nant Clwyd y Dre a oedd yn ffinio â Chwningar y Castell; byddai canlyniad yr arolwg yn helpu i sefydlu natur y gwaith sydd ei angen ac asesu'r costau posibl. Nid oedd yn bosibl ar hyn o bryd cyngori a fyddai'r costau'n amodol ar broses yswiriant. Cadarnhawyd bod y gwaith i'r wal oedd wedi dymchwel yr ochr arall wedi'i atgyweirio. Diolchodd y Cyngorwr Tref i'r Cyngor Wynne am ei ddiweddariad a gofynnodd am gael gwybod am y cynnydd mewn perthynas â Chwningar y Castell, a oedd yn amwynder a ddefnyddir yn aml gan drigolion lleol.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar gau Cwningar y Castell.*

### **140. GRŴP TASG ARGYFWNG HINSAWDD AC ECOLEGOL**

Darparodd y Cyngorwr van der Eijk a Williams, cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar y grŵp gorchwyl ar gyfer argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, ddiweddariad i'r Aelodau gan gynnwys ymateb drafft i 'Strategaeth Ddrafft ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd Cyffredinol ar Waith ar Newid yn yr Hinsawdd' Llywodraeth Cymru a rhestr yn amlinellu syniadau a thasgau posibl, o fewn cyfrifoldeb y Cyngor Tref a/neu grwpiau eraill yn Rhuthun, a gafodd effaith/effaith bosibl ar yr hinsawdd ac ecoleg. Y brif egwyddor oedd bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan gymryd materion hinsawdd/ecoleg i ystyriaeth. Nid oedd rhestr o'r fath yn hollgynhwysfawr a chroesawyd awgrymiadau ychwanegol. Cytunodd yr Aelodau i frwr ymlaen â'r syniadau fel y'u rhestrwyd a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi gan y Pwyllgor perthnasol i faterion hinsawdd ac ecolegol. Yn ogystal, cytunwyd i'r Cyngor Tref ddatblygu a chytuno ar ddatganiad cenhadaeth yn diffinio ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol a rhoi cyhoedduswydd iddo.

**PENDERFYNWYD:** *(i) derbyn yr ymateb drafft i 'Strategaeth Ddrafft ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd Cyffredinol ar Waith ar Newid Hinsawdd' Llywodraeth Cymru a'i gyflwyno fel ymateb ffurfiol gan Gyngor Tref Rhuthun; (ii) bwrw ymlaen â'r syniadau fel y'u rhestrir a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi gan y Pwyllgor perthnasol i faterion hinsawdd ac ecolegol; a (iii) bod y Cyngor Tref yn datblygu ac yn cytuno ar ddatganiad cenhadaeth yn diffinio ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol a rhoi cyhoedduswydd iddo.*

#### **141. PARTNERIAETH LLIFOGYDD RHUTHUN**

Rhoddwyd diweddariad ar faterion yn ymwneud â Phartneriaeth Llifogydd Rhuthun yn bennaf y gofyniad i ddatblygu, gyda chefnogaeth trigolion, gynllun llifogydd cymunedol ar gyfer rhai ardaloedd yn y dref a allai gael llifogydd. Wrth gydnabod yr angen i ymgysylltu â'r gymuned, pwysleisiodd yr aelodau rôl allweddol cyrff statudol, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru, o ran sicrhau bod mesurau atal llifogydd yn cael eu gweithredu'n briodol a phreswylfeydd yn cael eu cadw'n ddiogel. Dywedwyd wrth yr aelodau bod bagiau tywod yn ddarfodus a bod eu hoes yn gyfyngedig. Mynegwyd y farn bod polisi'r Cyngor Sir o beidio â dosbarthu bagiau tywod yn annerbyniol. Gofynnwyd i Gynghorwyr Sir sicrhau bod y rhigolau yn Rhuthun yn cael eu clirio fel mater o frys.

**PENDERFYNWYD:** *nodwyd y diweddariad a gofynnodd y Cynghorwyr Sir i sicrhau bod y rhigolau yn Rhuthun yn cael eu clirio fel mater o frys.*

#### **142. AELODAETH IS-BWYLLGORAU CYNGOR TREF RHUTHUN**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried aelodaeth Is-bwyllgor y Cyngor Tref a chytunwyd y dylid dosbarthu'r rhestr o is-bwyllgorau ac i'r Aelodau hysbysu Clerc y Dref o'u dewis aelodaeth.

**PENDERFYNWYD:** *i ddosbarthu y rhestr o is-bwyllgorau ac i'r Aelodau hysbysu Clerc y Dref o'u dewisiadau.*

#### **143. PARATOIADAU AT Y NADOLIG**

Rhoddodd Clerc y Dref ddiweddariad i'r Aelodau ar baratodau'r Nadolig, gan gynnwys y byddai'r Goeden Nadolig a'r goleuadau yn cael eu gosod yn ddiweddarach yn yr wythnos. Fel y cytunwyd yn flaenorol, byddai system teledu cylch cyfyng dros dro yn cael ei gosod, yn canolbwyntio ar y goeden Nadolig a'r goleuadau ar Sgwâr San Pedr, i liniaru unrhyw ddifrod neu fandaliaeth. Roedd y Cyngor Tref eisoes wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn talu ffi flynyddol; yn ogystal â hyn, cytunwyd i gyflwyno polisi TCC ac Asesiad Effaith Diogelu Data i ganolbwyntio'n benodol ar y TCC dros dro. Roedd y Tîm Plismona lleol yn gefnogol i ddefnyddio'r TCC dros dro dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i atal unrhyw ddifrod troseddol posibl.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno i gyflwyno polisi TCC ac Asesiad Effaith Diogelu Data sy'n canolbwyntio ar y Goeden Nadolig a'r goleuadau dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.*

#### **144. CAIS AM CYFRAINIAD ARIANNOL GAN YR URDD**

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i gais am rodd gan Bwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru yn Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *i ymateb i'r Urdd yn datgan cefnogaeth i'r mudiad ac yn amlinellu'r nawdd ariannol diweddar a ddarparwyd i gynnal Eisteddfod yr Urdd yn 2022 a'r rhodd ychwanegol o £500 a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol.*

#### **145. RHYDDHAU AIL GYFRAN LWFANS Y MAER**

Cytunodd yr Aelodau i ryddhau ail randaliad Lwfans y Maer.

**PENDERFYNWYD:** *Cytuno i'r taliad o £700, sef ail gyfran lwfans y Maer.*

#### **146. DATGANIAD ARIANNOL**

Derbyniwyd ac ystyriwyd y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 o Hydref 2022, gan yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 o Hydref 2022.*

#### **147. CYFRIFON I'W TALU**

**PENDERFYNWYD:** *cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifo a TWE – 11/2022	*	£240.00
OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ym mis Hydref	*	£180.00
OB	Snowdon Ventures – Haydn Peers	Darparu Offer PA ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio		£40.00
OB	Fineline	Taflen Gwasanaeth Sul y Cofio		£67.25
OB	Viking	Cyflenwadau swyddfa a lluniaeth	*	£254.46
OB	Lleol.cymru	Hysbyseb Swydd Clerc y Dref	*	£180.00
OB	IT Williams	Darparu gwasanaeth i gludo a gwaredu gwastraff o'r basgedi crog	*	£672.00
OB	Eglwys San Pedr, Rhuthun	Trydan i Lifoleuadau'r meindwr rhwng 1.1.2021 a 31.12.2021		£1673.89
OB	BT	Costau ffon a'r rhyngwyd – Tachwedd 2022	*	£99.68
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Microsoft 365 Tachwedd 2022	*	£18.96
	O gyfrif yr Hen Lys			£524.00
OB	Denbighshire CC	Treth Annomestigs (9fed o 10 taliad)		£524.00
OB	Kelletrics	Galw allan, cyflenwi a gosod allfa soced dwbl newydd	*	£156.00
DD	TV Licensing	Trwydded Teledu – tan 31 Hydref 2023		£159.00
OB	MKM Supplies	Eitemau i'r Hen Lys yn ymwneud a symud swyddfa	*	£40.98

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda \* uchod yn cynnwys TAW adferadwy)

#### 148. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 19 o Ragfyr 2022 am 7.00. p.m.*

#### 149. GWAHARDDIAD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigiodd y Cadeirydd, ac fe'i eiliwyd, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriadig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. (fel yr amlinellir ym mharagraff 3: Gwybodaeth sy'n sy'n perthyn i unigolyn) ac [fel yr amlinellir ym mharagraff 3: Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).

#### 150. COFNODION YR IS-PWYLLGOR ADNODDAU DYNOL

Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.*

#### 151. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan y Cyng Gavin Harris ar Felodrom arfaethedig Rhuthun  
**PENDERFYNWYD:** *nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar Felodrom arfaethedig Rhuthun.*